# Adolygiad o’r dystiolaeth: Y ddarpariaeth ail iaith sydd ei hangen i ddysgwyr gyrraedd gwahanol lefelau hyfedredd ieithyddol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Crynodeb

Dyma gyfle cyffrous i wneud lleoliad gwaith ar brosiect ar ran Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno cynnig cyfle ar gyfer interniaeth a fydd yn golygu cynnal adolygiad o’r dystiolaeth all gyfrannu at ein dealltwriaeth o ba fath a pha faint o addysg ail iaith sydd ei hangen i ddysgwyr gyrraedd gwahanol lefelau hyfedredd ieithyddol. Bydd yr interniaeth yn cynnig cyfle i’r myfyriwr gynhyrchu allbwn ymchwil allai lywio datblygiad polisi.

Bydd y myfyriwr yn cael y cyfle i gymhwyso sgiliau ymchwil mewn amgylchedd polisi, datblygu mwy ar eu sgiliau cyffredinol (megis ysgrifennu adroddiadau a gwneud cyflwyniadau) a chyfoethogi eu gwybodaeth am ymchwil y tu hwnt i’r byd academaidd.

## Y sefydliad

Llywodraeth Cymru yw'r Llywodraeth ddatganoledig ar gyfer Cymru sy'n gyfrifol am yr economi, addysg, iechyd a'r GIG yng Nghymru, busnes, gwasanaethau cyhoeddus ac amgylchedd Cymru.

Yn benodol, bydd yr interniaeth wedi'i lleoli o fewn y gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS). Mae KAS yn casglu, dadansoddi a chyflwyno ymchwil a data ar gyfer llunwyr polisïau a'r cyhoedd yn unol â safonau proffesiynol. Maent yn cynnig tystiolaeth annibynnol i ddeall, datblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso polisïau'r llywodraeth. Mae KAS hefyd yn cefnogi cydweithwyr polisi i ddatblygu, gweithredu a chyflawni polisïau.

## Yr interniaeth

Bydd yr intern yn rhan o Gangen Ymchwil y Gymraeg, sy’n cefnogi Is-adran Cymraeg 2050 - yr isadran yn Llywodraeth Cymru sy’n arwain ar weithredu strategaeth y Gymraeg, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.

Bydd yr interniaeth yn gyfle cyffrous i weithio wrth galon Llywodraeth Cymru. Bydd yr intern yn gweithio’n agos gyda swyddogion polisi ac ymchwilwyr. Bwriedir i’r cydweithio hwn ddatblygu dealltwriaeth y myfyriwr o'r berthynas rhwng ymchwil, gwneud penderfyniadau a gweithredu polisi.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn elwa ar gyfleoedd datblygu a gynigir yn ganolog gan Lywodraeth Cymru, a gall hyn gynnwys mentora, cysgodi, cefnogaeth gan gymheiriaid a hyfforddiant.

Bwriedir i’r myfyriwr elwa ar y profiad yn y ffyrdd a ganlyn:

- Datblygu gwell dealltwriaeth waith y tu allan i'r byd academaidd, a chynyddu eu cyflogadwyedd;
- Defnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau i gyfrannu at waith Llywodraeth Cymru;
- Rhoi cyfle i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru gael cipolwg ar brosiect PhD y myfyriwr, ac felly cyfrannu at lwyddiant y traethawd ymchwil;
- Darparu cyfleoedd i rwydweithio o fewn y maes polisi sy'n gysylltiedig â’r maes ymchwil;
- Magu sgiliau a gwybodaeth drosglwyddadwy (gan gynnwys rheoli amser ac ysgrifennu adroddiadau).

## Y prosiect

**Adolygiad o’r dystiolaeth: Y ddarpariaeth ail iaith sydd ei hangen i ddysgwyr gyrraedd gwahanol lefelau hyfedredd ieithyddol**

Derbyniodd Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 gydsyniad brenhinol ar 7 Gorffennaf 2025. Mae’r Ddeddf yn creu mecanwaith i sicrhau dros amser bod pob disgybl yng Nghymru yn derbyn addysg Gymraeg fydd yn eu galluogi i gyrraedd diwedd oedran addysg gorfodol yn siaradwr Cymraeg annibynnol. Er mwyn gwireddu’r nod hwn, mae’r Ddeddf yn cyflwyno rhaglen uchelgeisiol o newid sy’n gofyn am weithredu ar sawl lefel.

Nod y prosiect hwn yw deall y sail dystiolaeth ar gyfer agwedd bwysig ar y Ddeddf. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy adolygu’r dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli yn y maes. Disgwylir i’r gwaith hwn gyfrannu at lywio penderfyniadau polisi wrth i’r Ddeddf gael ei gweithredu dros y blynyddoedd nesaf.

**Amcanion y prosiect**

- Adolygu’r dystiolaeth ryngwladol am addysg ail iaith, gyda ffocws penodol ar gyd-destunau sosioieithyddol sy’n berthnasol i addysg Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru. Mae’r prif ddiddordeb mewn cyd-destunau lle mae’r iaith sy’n cael ei dysgu yn wahanol i iaith yr ysgol a’r iaith a siaredir gartref (gan y mwyafrif o ddisgyblion).
- Archwilio’r dystiolaeth ynghylch pa fath a pha faint o ddarpariaeth ail iaith sydd ei hangen i gyrraedd lefelau gwahanol o hyfedredd ieithyddol yn y cyd-destunau hyn. Mae diddordeb penodol mewn tystiolaeth sy’n mynegi hyfedredd ieithyddol yn nhermau’r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd (CEFR), gan mai ar hyn y seilir ein dull safonol o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg.
- Canfod y dystiolaeth ar y ffactorau sy’n dylanwadu ar y ddarpariaeth sydd ei hangen i gyrraedd lefelau gwahanol, gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i):
    - Oedran y dysgwyr
    - Nodweddion yr athro (e.e. profiad, arbenigedd mewn addysgeg iaith, hyder yn yr iaith)
    - Nodweddion yr ysgol / dosbarth (e.e. maint a lleoliad yr ysgol, nodweddion cymdeithasol-ddemograffig a chyrhaeddiad)
    - Cyd-destun ieithyddol y cartref, yr ysgol a’r gymuned
- Crynhoi a dadansoddi’r dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys asesu cryfder ac ansawdd y sail dystiolaeth.

- Llunio casgliadau ar sail y dystiolaeth.
- Adnabod cwestiynau neu drywyddau ymchwil pellach.

Sylwer: Gall y rhestr hon newid wrth i'r gwaith ymchwil fynd rhagddo.

**Deilliannau a Ragwelir**

- Bydd y prosiect yn arwain at gasgliadau ynghylch yr hyn y gellir ei ddysgu o'r dystiolaeth i gynorthwyo swyddogion polisi wrth wneud penderfyniadau ynghylch gweithredu darpariaethau'r Ddeddf dros y blynyddoedd nesaf.
- Bydd disgwyl i'r myfyriwr baratoi papur a'i gyflwyno i gydweithwyr polisi, ac o bosib i randdeiliaid eraill. O bosib, bydd angen paratoi crynodeb o'r papur i'w gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Cyfrifoldebau a gofynion yr interniaeth

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o hyd at dri mis. Disgwylir i fyfyrwyr llawn amser gamu'n ôl o'u PhD i ganolbwyntio ar yr interniaeth am ei gyfnod, yn unol â chanllawiau ESRC (Canllaw Cyllido Ôl-raddedig ESRC tud. 27).

Anogir ceisiadau gan fyfyrwyr rhan-amser. Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o dri mis amser llawn neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhan-amser. Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn rhan-amser, mae'r interniaeth ar gael yn rhan-amser dros gyfnod hwy (dim llai na thri diwrnod yr wythnos waith), i'w drafod rhwng a myfyriwr â Llywodraeth Cymru. Os hoffech gael eich ystyried ar sail ran-amser, nodwch eich dewis oriau gwaith ar y ffurflen gais.

Rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn modd hyblyg, gartref ac yn un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru, yn ystod yr interniaeth. Gallai hyn newid yn ddibynnol ar bolisi Llywodraeth Cymru. Caiff unrhyw newidiadau i drefniadau gweithio eu trafod â'r myfyriwr.

Yn ogystal â gwyliau blynyddol, gall yr intern drefnu amser ar gyfer ymrwymiadau PhD sydd eisoes mewn lle (e.e. cyfarfodydd grwpiau ymchwil a chyflwyniadau mewn cynadleddau) drwy drafod â'r rheolwr llinell.

## Manyleb myfyriwr

Rhaid i'r myfyriwr feddu ar y canlynol:

- sgiliau cryf o ran adolygu llenyddiaeth, gan gynnwys y gallu i gyfuno amrywiaeth eang o dystiolaeth i'w gwneud yn hawdd ei deall i ddarllenwyr nad ydynt yn arbenigwyr;
- dealltwriaeth o sut y gall amrywiaeth o ffynonellau a mathau o dystiolaeth gyfrannu at sail tystiolaeth;
- y gallu i arfarnu cadernid a chyfyngiadau posibl tystiolaeth;
- y gallu i lunio dogfennau cryno, wedi'u hysgrifennu'n dda, sy'n cyflwyno deunydd technegol ar ffurf hygyrch.

## Dyddiad dechrau'r interniaeth

Ionawr/Chwefror 2026 (union ddyddiad i'w drafod). Efallai y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

## Cyllid a chostau

Gellir talu costau teithio rhesymol i fyfyrwyr nad ydynt fel arfer wedi'u lleoli yng Nghaerdydd. Dylai ceisiadau fod yn gyson â chanllawiau Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru (YGGCC). Ni fydd ceisiadau gan fyfyrwyr sydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer teithio a llety yn cael eu trin yn llai ffafriol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am hyn, cysylltwch â Katy Marrin Katy.Marrin001@llyw.cymru a Jo Coates Joanne.Coates@llyw.cymru

## Diogelwch

Mae gweithdrefnau fetio Llywodraeth Cymru (sy'n berthnasol i staff dros dro yn ogystal â staff parhaol) yn cynnwys cwblhau ffurflen gais Safon Ddiogelwch Safonol ar gyfer Personél (BPSS) a Holiadur Diogelwch ar gyfer y broses fetio.

Mae'r broses hon yn gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno tri math gwreiddiol o ddogfen adnabod mewn person. Dylai un o'r rhain fod yn ddogfen â llun (pasbort, trwydded yrru newydd); dylai un ddogfen ddangos y cyfeiriad presennol; a gallai'r trydydd math fod yn fil cyfleustodau, tystysgrif geni, P45 neu P60.

## Gofynion cenedligrwydd

Mae bod yn gymwys i gymryd rhan mewn interniaeth ar y cynllun hwn yn dibynnu ar gwrdd â rheolau cenedligrwydd y Gwasanaeth Sifil. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gymwys cyn gwneud cais. Ni all y rheini sydd ddim yn cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd gymryd rhan mewn interniaeth.

## Ymholiadau

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r post neu'r broses ymgeisio i Laura Beth Davies: laurabeth.davies.@llyw.cymru.

## Hysbysiad preifatrwydd

https://www.llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru